**Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg**
**Education, Social Justice and Welsh Language Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: FOI Request 24/03/2023
Ein cyf/Our ref: ATISN 17323

26 Mai 2023

Annwyl ,

**Y cais: ATISN 17323 Cau Ysgolion ac Ysgolion Cynaliadwy**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 24 Mawrth 2023, ac ymddiheurwn am yr oedi i'r ymateb. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Cais Cyngor Gwynedd – Ysgolion Cynaliadwy i Ysgol Bontnewydd, Gwynedd.

2. Unrhyw ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd am gau Ysgol Felinwnda ac Ysgol Llandwrog, Gwynedd. Yn cynnwys unrhyw ebost, cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau.

Dylai'r wybodaeth fod ar gael rhwng 2021 ac 2023.

**Ein hymateb**

Amgaeaf yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yng nghwestiwn 1; Cais Cyngor Gwynedd yn atodiad 1. Mae costau masnachol sensitif wedi cael eu golygu o'r ddogfen yn dilyn ymgynghoriad â Chyngor Gwynedd.

Ynglŷn â chwestiwn 2 am ohebiaeth am gau Ysgol Felinwnda ac Ysgol Llandwrog mi fedrai cadarnhau nad oes unrhyw ohebiaeth am y pwnc wedi cymryd lle rhwng Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru, yn benodol Y Gangen Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Cathays Park
Cardiff CF10 3NQ
-mail/E-bost:
sustainablecommunitiesforlearning@gov.wales

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Atodiad 1

SOC Cyngor Gwynedd Fersiwn C